

## **Bwletin Awdurdod S4C - Mehefin 2004**

### **Cofnodion y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg**

Tynnodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg sylw'r Awdurdod at y materion a drafodwyd yn ystod y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27/28 Mai 2004

### **Yr Ysgrifennydd i'r Awdurdod**

Llongyfarchwyd yr Ysgrifennydd, John Howells, ar gael ei benodi'n Bennaeth Addysg Uwch yn y Cynulliad. Fe fyddai hyn, wrth gwrs, yn golled fawr i'r Awdurdod ac i S4C yn gyffredinol ond dymunwyd yn dda iawn iddo yn ei swydd newydd. Fe fyddai'n dechrau ar hyn ddechrau mis Medi.

### **Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol**

Nodwyd y byddai cyfweiliadau ar gyfer llenwi'r swydd hon yn cael eu cynnal ar 9 Gorffennaf 2004

### **Cyfarfod gydag Ofcom**

Adroddwyd bod y Cadeirydd, y Prif Weithredwr a'r Ysgrifennydd wedi cael cyfarfod gyda Sue Balsom, Rhodri Williams a Hywel Wiliam o Ofcom yn gynt yn yr wythnos. Amcan y cyfarfod oedd i briffio cynrychiolwyr Ofcom yng Nghymru ar nifer o wahanol agweddau ar sefyllfa bresennol S4C. Roedd yna fwriad i gynnal cyfarfodydd tebyg eto yn y dyfodol.

### **Cyfarfodydd gyda'r DCMS**

Nodwyd bod y Cadeirydd wedi gwneud trefniadau i gyfarfod â'r Arglwydd McIntosh, y Gweinidog dros Ddarlledu, i drafod ymateb y Llywodraeth i Adroddiad Roger Laughton.

### **Eisteddfod yr Urdd**

Llongyfarchwyd yr holl staff fu'n gysylltiedig â gweithgareddau S4C yn Eisteddfod yr Urdd. Yr oedd pabell S4C yn un o'r prif atyniadau ar y maes ac yr oedd lefel swm y plant yno yn dystiolaeth o'r modd yr oedd pobl yn mwynhau.

## **Y Sioe Amaethyddol**

Nodwyd y byddai S4C yn cynnal derbyniad amser cinio ddydd Mawrth y Sioe.

## **Apêl Elusennol S4C**

Soniodd y Cadeirydd ei bod hi'n fwriad ganddi i ysgrifennu at Angharad Mair a chwmmni Tinpolis i ddiolch iddynt am eu hymroddiad i ymgyrch yr elusen eleni. Roedd diolch mawr i'w roi i staff S4C hefyd am eu holl waith caled wrth drefni'r gwahanol weithgareddau.

## **Y Pwyllgor Dethol Diwylliant**

Adroddodd y Cadeirydd ar ei hymddangosiad hi a'r Prif Weithredwr o flaen y Pwyllgor Dethol Diwylliant ar 22 Mehefin i gyflwyno tystiolaeth parthed adolygiad Siartr y BBC. Teimlwyd bod hwn wedi bod yn ddigwyddiad digon llwyddiannus o ran cyflwyno'r negeseuon yr oedd S4C yn dymuno eu cyfleu ac o ran tanlinellu pwysigrwydd gwasanaethau'r BBC yng Nghymru.

## **Derbyniad Seneddol**

Nodwyd y byddai S4C yn cynnal derbyniad yn Nhy'r Cyffredin ar 28 Mehefin.

## **Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2003**

Cadarnhawyd y byddai'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar 30 Mehefin. Y prif neges yn deillio ohono oedd mai flwyddyn lle'r prif weithgaredd oedd edrych i'r dyfodol fu 2003, wrth i'r gwaith ar yr adolygiadau a pharatoi strategaeth symud yn ei flaen.

## **Adroddiad Clywch**

Nodwyd bod yna ddisgwyl i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi ar 1 Gorffennaf. Yr oedd S4C, wrth gwrs, yn aros i weld beth, os unrhyw beth, fyddai'r Comisiynydd Plant yng Nghymru yn ei ddweud parthed ymwneud y Sianel â John Owen drwy'r gyfres *Pam fi Duw*.

## **Rhagolygon Ariannol Deng Mlynedd**

Trafodwyd y gyllideb ddrafft deng mlynedd oedd yn amlinellu rhai o'r pwysau ariannol oedd yn wynebu'r Sianel dros y degawd nesaf. Nodwyd y damcaniaethau wedi'u gwneud wrth lunio'r gyllideb. Roedd hon yn fan cychwyn ac fe fyddai'r drafodaeth ar y mater hwn yn parhau dros y misoedd nesaf, gyda'r angen i gytuno'r gyllideb ar gyfer 2005 ym mis Tachwedd.

## **Adolygiad Roger Laughton**

Roedd S4C yn dal i aros i glywed gan y DCMS pryd byddai Adroddiad Roger Laughton yn cael ei gyhoeddi. Unwaith bod yr adroddiad wedi ei gyhoeddi byddai disgwyl i S4C ystyried ei hymateb iddo. Byddai'r cynllun corfforaethol nesaf yn rhoi cyfle i'r Sianel ddatgan y ffordd ymlaen dros y cyfnod nesaf.

## **Strategaeth Rhaglenni**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Rhaglenni i'r Awdurdod ei strategaeth rhaglenni drafft ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Cyfeiriwyd at y ffaith mai strategaeth gam wrth gam oedd hwn, yn rhannol oherwydd y sefyllfa ariannol ac yn rhannol er mwyn dod â'r gynulleidfa ar hyd y llwybr gyda'r Sianel. Ni fyddai pob lefel yn y strategaeth newydd hon felly yn cael ei gweithredu dros nos. Byddai'r strategaeth yn cael ei gyflwyno i'r BBC ac i aelodau TAC yn y lle cyntaf.

## **Cydymffurfiaeth: Gwasanaeth Monitro**

Ystyriwyd papur gan yr Ysgrifennydd oedd yn gofyn i'r Awdurdod gytuno i ymestyn cytundeb monitro gyda Sefydliad Thomson/Prifysgol Cymru Aberystwyth am flwyddyn ychwanegol, ond ar raddfa lai (gyda gostyngiad yn y pris ar gyfer y gwasanaeth i adlewyrchu hyn). Fe fyddai angen adolygu natur y gwasanaeth monitro ymhellach maes o law pan fydd unrhyw sgil effeithion yn deillio o ffactorau megis adroddiad yr Arglwydd Hutton parthed y BBC yn dod yn fwy eglur. Cytunodd yr Awdurdod y dylid ymestyn y cytundeb monitro hyd at Medi 2005 ar y sail wedi'i osod allan yn adroddiad yr Ysgrifennydd.

## **Cyflwyniad gan Jon Priest, SPA**

Derbyniodd yr Awdurdod gyflwyniad gan Jon Priest o gwmni SPA oedd wedi bod yn ymgymryd â gwaith ymchwil ansoddol ar ran S4C dros ddeng mlynedd. Roedd y gwaith hyn bellach yn canolbwyntio ar ddau brosiect, sef Triawd (ymchwil ansoddol parhaol ar agwedd a barn y gwylwyr am raglenni S4C) a CAT (ymchwil tracio parhaol ar ganfyddiad y gwylwyr am raglenni, delwedd a remit S4C i gymharu â darlledwyr eraill). Aeth ymlaen i esbonio manylion y gwaith ar y ddau brosiect hyn gan gyflwyno'r prif gasgliadau yn deillio ohonynt.

Cytunwyd bod y cyflwyniad wedi bod yn ddiddorol dros ben a'i fod wedi gosod nifer o faterion gerbron Aelodau'r Awdurdod iddynt gymryd i ystyriaeth. Byddai elfennau o'r ymchwil ansoddol yn rhan o'r adroddiadau ar berfformiad fyddai'n cael eu cyflwyno i'r aelodau yn y dyfodol.

## **Materion Eraill**

Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad y Prif Weithredwr – Materion er gwybodaeth
- Adroddiad Ariannol
- Adroddiad Rheolwr Gyfarwyddwr S4C Masnachol
- Adroddiad Cwynion
- Adroddiad a Chofnodion cyfarfod y Grwp Cydymffurfiaeth a gynhaliwyd 9 Mehefin 2004.
- Adroddiad Gwifren Gwylwyr
- Adroddiad Ymchwil